# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mawrth 2014 i'w hateb ar 1 Ebrill 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o bobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol? OAQ(4)0139(CS)

2.**Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Llanelli? OAQ(4)0149(CS)**W**

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer datblygu chwaraeon merched yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0140(CS)

4. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ennyn diddordeb yn y celfyddydau ymhlith pobl ifanc? OAQ(4)0151(CS)**W**

5. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon lleiafrifol yng Nghymru? OAQ(4)0141(CS)

6. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei drafodaethau gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynglŷn â strategaeth a pholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yng Nghymru? OAQ(4)0148(CS)

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo safleoedd treftadaeth ledled Cymru? OAQ(4)0142(CS)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Sir Benfro? OAQ(4)0137(CS)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o feicio ymhlith disgyblion Cymru? OAQ(4)0145(CS)**W**

**10. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo mwy o weithgarwch chwaraeon gan ferched? OAQ(4)0150(CS)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol? OAQ(4)0143(CS)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer archifau yng Nghymru? OAQ(4)0138(CS)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymagwedd Llywodraeth Cymru at Lythrennedd Corfforol? OAQ(4)0147(CS)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth pierau glan môr i'r amgylchedd hanesyddol? OAQ(4)0144(CS)
**TYNNWYD YN OL**

**15. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i sicrhau effeithiolrwydd polisïau Diwylliant a Chwaraeon o ran trechu tlodi? OAQ(4)0146(CS)